Healthcare Inspectorate Wales | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, **Practis Deintyddol Clifton**

3 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-3939-9


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 7

Profiad y Claf ........ 7

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 15

6. Y Camau Nesaf ........ 16

Atodiad A ........ 17

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Clifton, yn 67 Clifton Terrace, y Drenewydd, Powys, SY16 1BG, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 3 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Clifton yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Drenewydd ym Mhowys. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yn bennaf mae Practis Deintyddol Clifton yn bractis preifat, er y darperir gwasanaethau'r GIG ar gyfer plant.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un rheolwr practis, un uwch-dderbynnydd, tair nyrs ddeintyddol (sydd hefyd yn ymgymryd â rhai dyletswyddau yn y dderbynfa ar adegau) a glanhawr sy'n gweithio y tu allan i oriau.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Gofal deintyddol ataliol
- Archwiliadau deintyddol rheolaidd
- Gwaith adferol
- Gwasanaethau'r GIG ar gyfer plant

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol Clifton yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Profiad y Claf

Gwnaethom dderbyn adborth eithriadol o gadarnhaol gan y cleifion a oedd wedi ymateb i'n holiadur.

Canfuom fod systemau cadarn a threfnus ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, ac roedd yn bleser gennym weld bod y canlyniadau'n cael eu dadansoddi'n drwyadl ac yn derbyn sylw adeiladol.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Gwelsom dystiolaeth bellach bod y practis hwn yn un wedi'i drefnu'n dda, sy'n ymroddedig i fonitro ei safonau ei hun er mwyn darparu gwasanaeth sy'n gyson ac o ansawdd uchel. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod archwiliadau allweddol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac yn cael eu dadansoddi'n drwyadl.

Gwelsom fod gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer dadheintio a storio offer deintyddol; ond roedd angen diwygio a diweddaru rhai o'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod cydymffurfio â chanllawiau cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd hefyd angen rhywfaint o aildrefnu ar yr ystafell ddadheintio, er mwyn sicrhau bod y llif gwaith rhwng offer glân ac offer budr yn cael ei reoli mor effeithiol ag y bo modd.

Roeddem o’r farn bod system y practis ar gyfer storio cyffuriau brys yn enghraifft o arfer nodedig.

Ar y cyfan, roedd y prosesau a'r systemau ar gyfer rheoli’r defnydd diogel o offer radiograffig o ddydd i ddydd yn foddhaol. Gwnaethom gyfathrebu ar wahân â'r practis, trwy ein proses rhoi sicrwydd ar unwaith, oherwydd nad oedd gan y practis gadarnhad ysgrifenedig ei fod wedi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei fod yn defnyddio offer radiograffig yn yr adeilad. Rhoddwyd sylw i’r mater hwn, ac fe gafodd ei ddatrys yn brydlon. Felly nid oedd angen camau pellach.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

Canfuom dîm bach, cydlynol a sefydledig yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan y prif ddeintydd/rheolwr practis, ac ethos o ddysgu a hunan-welliant. Roedd y gwobrau niferus a enillwyd gan dîm y practis yn un enghraifft o'r ethos hwn.

## Ansawdd yr Amgylchedd

Mae Practis Deintyddol Clifton mewn tŷ wedi'i addasu yng nghanol y Drenewydd ym Mhowys. Ar y cyfan roedd safon y glendid a'r gwaith cynnal a chadw yn y practis yn dda iawn. Roedd y practis wedi cymryd camau er mwyn sicrhau bod yr adeilad mor hygyrch ag y bo modd o'r tu allan, ac roedd ramp cludadwy wedi'i osod ar gyfer cleifion y gallai fod ei angen.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaethom dderbyn adborth eithriadol o gadarnhaol gan y cleifion a oedd wedi ymateb i'n holiadur. Ceir rhai enghreifftiau o'r ymatebion isod.**

**Canfuom fod systemau cadarn a threfnus ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, ac roedd yn bleser gennym weld bod y canlyniadau'n cael eu dadansoddi'n drwyadl ac yn derbyn sylw adeiladol.**

Ein prif ddull o gasglu barn y cleifion ar gyfer yr arolygiad hwn oedd trwy ddosbarthu holiaduron, wedi'u hargraffu ymlaen llaw, i gleifion cyn ein hymweliad arolygu. Cafodd un deg chwech o'r rhain eu cwblhau a'u dychwelyd atom.

Yn ddieithriad, roedd yr holl adborth a dderbyniwyd gennym yn gadarnhaol iawn. Rhoddwyd caniatâd inni gan y rhai a ymatebodd i'n holiadur ddefnyddio'r wybodaeth yr oeddent wedi'i rhoi inni. Rydym wedi cynnwys sampl o'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd isod:

> 'Mae dod i'r practis hwn yn bleser. Mae'r holl staff yn gyfeillgar ac mae pob man yn lân dros ben.'
>
> *'Dw i yn hapus iawn a fyswn ni ddim yn mynd at neb arall. Mae lot o fy ffrindiau a'm teulu yn dod yma, oherwydd dw i wedi dweud mor dda ydyn nhw.'*
>
> 'Mae'r practis yn lân iawn ac mae'r staff yn hyfryd. Byddwn yn argymell y deintydd hwn yn gryf.'

Ar y cyfan dywedodd cleifion wrthym hefyd nad oeddent yn profi unrhyw oedi wrth aros am eu hapwyntiadau. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi profi oediadau o bryd i'w gilydd dros y blynyddoedd, ond nid oedd yr un ohonynt yn poeni am hyn.

Dywedodd pum claf nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Fodd bynnag, ni wnaethant roi unrhyw ymatebion negyddol i'n cwestiynau chwaith. Dylai'r practis ystyried a yw ei ddull cyfredol o roi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â gwneud cwyn yn ddigonol yng ngoleuni'r canfyddiad hwn.

Roedd yr ystafell aros yn olau, yn llachar ac yn awyrog, ac ynddi nifer briodol o seddi o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd rhai cylchgronau i gleifion eu darllen wrth iddynt aros, a nifer fach o lyfrau i blant. Roedd y practis wedi

penderfynu symud teganau o'r ystafell aros oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch, a gwelsom lle roedd y staff wedi cofnodi’r penderfyniad hwn.

Gwelsom hefyd fod llawer o enghreifftiau o sesiynau hyfforddi tîm, lle roedd holl dîm y practis wedi trafod darparu lefel uwch o wasanaeth i gwsmeriaid. Rydym o’r farn bod y ffocws hwn yn arfer nodedig.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Gwelsom dystiolaeth bellach bod y practis hwn yn un wedi'i drefnu'n dda, sy'n ymroddedig i fonitro ei safonau ei hun er mwyn darparu gwasanaeth sy'n gyson ac o ansawdd uchel. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod archwiliadau allweddol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu dadansoddi'n drwyadl.**

**Gwelsom fod gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer dadheintio a storio offer deintyddol; ond roedd angen diwygio a diweddaru rhai o'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd angen rhywfaint o sylw ar yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau bod y llif gwaith rhwng offer glân ac offer budr yn cael ei reoli mor effeithiol ag y bo modd.**

**Roeddem o’r farn bod system y practis ar gyfer storio cyffuriau brys yn arfer nodedig.**

**Ar y cyfan, roedd y prosesau a'r systemau ar gyfer rheoli’r offer radiograffeg yn ddiogel o ddydd i ddydd yn foddhaol. Gwnaethom gyfathrebu ar wahân â'r practis, trwy ein proses rhoi sicrwydd ar unwaith, gan nad oedd gan y practis gadarnhad ysgrifenedig ei fod wedi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei fod yn defnyddio offer radiograffig yn yr adeilad. Rhoddwyd sylw i’r mater hwn, ac fe gafodd ei ddatrys yn brydlon. Felly nid oedd angen camau pellach.**

Canfuom fod y practis yn cynnal archwiliadau ym mhob un o'r meysydd canlynol: arferion a gweithdrefnau rheoli heintiau, ansawdd radiograffau, cadw cofnodion yn ogystal â chofnodi hanes meddygol cleifion. Gwelsom fod y rhain yn cael eu dadansoddi ac yn derbyn sylw, a hefyd eu bod yn cael eu trafod gan holl dîm y practis mewn cyfarfodydd tîm. Er mwyn gwella'r archwiliad rheoli heintiau, rydym yn argymell bod y practis yn cael gafael ar gopi o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[4], sy'n nodi'r safonau diweddaraf sydd i'w bodloni.

[4]Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn ddogfen ganllaw sy'n nodi'r safonau sydd i'w bodloni gan bractisau deintyddol gofal sylfaenol ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau.

Mae gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân, ac er bod yr ystafell hon yn foddhaol ar y cyfan, canfuom fod angen aildrefnu'r llif rhwng offer glân ac offer budr, er mwyn i drefn yr ystafell alluogi staff i ddilyn y broses hon yn agosach ac yn haws. Bydd llif gwaith gwell yn helpu i sicrhau na fydd offer deintyddol glân yn cael eu heintio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Aildrefnu offer a mannau yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau bod y llif gwaith rhwng offer glân ac offer budr yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Yn ôl Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylai fod sinc wedi'i rhannu, neu ddwy sinc, er mwyn golchi offer deintyddol mewn un sinc a'u rinsio yn y llall. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan y practis y cyfleuster hwn. Rydym wedi gofyn i'r practis wneud ymchwil i sut y gellir cyflawni hyn, a'n hysbysu ni am ei amserlen ar gyfer addasu'r ystafell a gweithio tuag at gydymffurfio â'r canllawiau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai fod sinc wedi'i rhannu, neu ddwy sinc, yn y man dadheintio, er mwyn golchi a rinsio offer deintyddol ar wahân.***

Gwelsom unwaith roedd offer deintyddol wedi mynd trwy'r broses ddadheintio, nad oeddent yn cael eu lapio mewn bagiau wedi'u selio'n rheolaidd; yn hytrach roeddent yn cael eu rhoi ar hambyrddau metel a oedd hefyd wedi'u sterileiddio. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio ar y diwrnod hwnnw. Er bod gan yr hambyrddau gaeadau, nid oeddent yn hollol aerdyn, a oedd yn peri risg bosibl o facteria a gludir yn yr aer. Gwnaethom argymell bod y practis yn dechrau bagio pob offeryn deintyddol ar ôl iddo gael ei sterileiddio, a rhoir dyddiad sterileiddio a'r dyddiad dod i ben ar bob bag. Gwnaethom argymell bod y practis yn cyfeirio at y canllawiau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar gyfer cyfarwyddyd wrth iddynt weithredu'r broses newydd hon.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid lapio pob offeryn deintyddol ar ôl iddo gael ei sterileiddio a rhoi'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar bob bag.***

Yn yr ystafelloedd triniaeth eu hunain, gwelsom nad oedd y sinciau wedi'u marcio'n glir er mwyn dangos a ydynt ar gyfer golchi dwylo neu ar gyfer glanhau offerynnau deintyddol. Gwnaethom argymell bod y practis yn codi arwyddion sy'n dangos yn glir beth yw pwrpas pob sinc.

Roedd contract ar waith ar gyfer sicrhau bod pob llif o wastraff a oedd yn cael ei gynhyrchu yn y practis yn cael ei waredu mewn ffordd ddiogel. Dangoswyd y man y tu allan i'r adeilad a'r man y tu mewn iddo inni (lawr y grisiau i ffwrdd o'r mannau cleifion), lle roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu. Gwnaethom nodi hefyd, trwy'r holl bractis, nad oedd llawer o'r biniau ar gyfer gwastraff clinigol yn cael eu gweithredu â throed. Gwnaethom argymell bod biniau pedal troed yn cael eu prynu cyn gynted ag y bo modd, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob bin ar gyfer gwastraff clinigol yn cael ei weithredu â throed neu â synhwyrydd, er mwyn lleihau'r angen i gyffwrdd â biniau, a'r potensial o gludo haint o un eitem i'r llall, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd 01-05.***

Roedd rhestr wirio ddyddiol ar waith ar gyfer cyflenwi'r practis â stoc, a sicrhau ei fod yn lân, wedi'i harddangos mewn lle amlwg. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod taflen llofnodion yn cael ei chyflwyno er mwyn rhoi tystiolaeth bod y tasgau'n cael eu cwblhau bob dydd.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y cywasgydd yn cael ei wirio bob dydd, ond nid oedd ffurflen i'w llofnodi er mwyn nodi bod hyn wedi'i wneud. Gwnaethom argymell felly fod taflen llofnodion yn cael ei chyflwyno er mwyn casglu'r dystiolaeth hon.

Roedd dogfennaeth ar waith a oedd yn dangos bod cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddiogel o ddydd i ddydd. Gwelsom fod rhai rheolau lleol[5] wedi'u harddangos yn y ddwy ystafell driniaeth at ddefnydd staff, ond nad oedd arwyddion y tu allan iddynt nac ar y drws i rybuddio cleifion bod cyfarpar radiograffig yn cael eu defnyddio yn yr ystafell. Gwnaethom argymell bod y mater hwn yn cael ei gywiro.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid codi arwyddion sy'n nodi mannau a reolir yn glir, yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (1999).***

---

[5]Set o gyfarwyddiadau allweddol ar gyfer gweithio yw rheolau lleol; maent yn orfodol ac mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau bod datguddiad staff i offer ymbelydredd yn cael ei gyfyngu.

Gwelsom nad oedd y practis yn defnyddio mesuryddion dos unigol er mwyn monitro lefel unigol o ddatguddiad i ymbelydredd. Gwnaethom drafod hyn â’r practis a chanfod bod ganddo sail resymegol dros beidio â gwisgo'r rhain. Fodd bynnag, er mwyn cryfhau'r sail resymegol hon ymhellach, rydym yn argymell bod y practis yn paratoi asesiad ysgrifenedig yn nodi'r penderfyniad hwn.

Gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis, sef cyfanswm o ddeg cofnod. Roedd y rhain yn ymwneud â chleifion preifat yn bennaf, ond gwnaethom hefyd edrych ar gofnodion nifer fach o gleifion y GIG. Ar y cyfan, canfuom fod safon y cofnodion yn foddhaol, ond roeddem yn teimlo y gellid gwella rhai o'r cofnodion a welsom, trwy sicrhau bod sgrinio ar gyfer canser, cydsyniad cleifion a'r opsiynau triniaeth a gynigiwyd yn cael eu dogfennu. Gwelsom hefyd nad oedd yr amlder ar gyfer cynnal radiograffau bob amser yn unol â'r canllawiau cyfredol, a chan nad oedd cyfiawnhad ysgrifenedig dros gynnal radiograff bob amser, nid oeddent yn gallu bod yn sicr ynglŷn â'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio â'r canllawiau cyfredol. Gwnaethom argymell bod y practis yn adolygu ei arferion ynglŷn â chadw cofnodion, er mwyn sicrhau ei fod yn casglu'r wybodaeth uchod yn gyson, a hefyd bod y meini prawf dethol ar gyfer cynnal radiograffau'n cael eu hadolygu, a bod yr holl arferion wedyn yn unol â'r rhain.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid sicrhau bod cyfiawnhad ysgrifenedig dros gynnal radiograffau'n cael ei nodi'r glir yn y nodiadau.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dîm bach, cydlynol a sefydledig yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan y prif ddeintydd/rheolwr practis, ac ethos o ddysgu a hunan-welliant. Roedd y gwobrau niferus a enillwyd gan dîm y practis yn un enghraifft o'r ethos hwn.**

Mae'r prif ddeintydd a rheolwr y practis yn gwpl priod a gymerodd dros y practis ym 1996. Roeddent yn cael eu cefnogi gan dîm a oedd yn cynnwys un deintydd cysylltiol, tair nyrs ddeintyddol ac uwch-dderbynnydd. Roedd pob un ohonynt wedi gweithio i'r practis ers nifer o flynyddoedd. Roedd trosiant staff yn isel iawn. Gwelsom dîm bodlon a chydlynol a chanddo systemau wedi'u sefydlu'n dda a swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir.

Er bod y tîm o staff yn fach, roeddent yn cael trafodaethau dyddiol ac yn cynnal cyfarfodydd staff ffurfiol yn rheolaidd. Roedd ystafell fawr, lachar ac awyrog yn y practis a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant staff, a hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd tîm. Yn yr ystafell hon, gwelsom dystiolaeth o'r deunyddiau hyfforddi roedd y tîm wedi'u defnyddio mewn cyfarfod diweddar. Gwelsom hefyd enghreifftiau o gofnodion cyfarfodydd tîm blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys manylder a gwybodaeth a oedd yn ei gwneud yn hawdd nodi pa beth a oedd wedi cael ei drafod, a pha benderfyniadau roedd y tîm wedi'u gwneud.

Roedd ffeiliau hyfforddi staff wedi'u cynnal yn dda, ac yn dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus, ynghyd â thystysgrifau a oedd yn cadarnhau hyn. Roedd diwrnod llawn o hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer y dydd Gwener ar ôl ein hymweliad arolygu. Byddai hyfforddiant pob aelod o staff ar ddadebru cardio-pwlmonaidd a gweithdrefnau brys yn cael ei ddiweddaru Roedd hefyd amser wedi'i bennu ar gyfer cyfarfod tîm, a gwelsom yr agenda a oedd wedi cael ei baratoi ymlaen llaw ar ei gyfer.

Roedd y broses o gynnal arfarniadau blynyddol wedi'i hymgorffori yn arferion y tîm hwn, a gwelsom rai o'r dogfennau paratoi roeddent yn eu defnyddio yn barod ar gyfer yr arfarniadau a oedd i'w cwblhau eleni. Roedd rhai aelodau o'r tîm eisoes wedi cwblhau'r broses ar gyfer y flwyddyn hon.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y prif ddeintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf (yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat). Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a gytunodd i sicrhau bod holl staff perthnasol y practis yn diweddaru eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i staff y practis gael

gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n cyflogi yn ymgymryd â gwiriadau i sicrhau addasrwydd staff ar gyfer cyflogaeth. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, gan nodi'r hyn a fyddai ei angen ar gyfer unrhyw weithgarwch recriwtio yn y dyfodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae Practis Deintyddol Clifton mewn tŷ wedi'i addasu yng nghanol y Drenewydd ym Mhowys. Ar y cyfan roedd safon y glendid a'r gwaith cynnal a chadw yn y practis yn dda iawn. Roedd y practis wedi cymryd camau er mwyn sicrhau bod yr adeilad mor hygyrch ag y bo modd o'r tu allan, ac roedd ramp cludadwy wedi'i osod ar gyfer cleifion y gallai fod ei angen.**

Mae'r practis mewn tŷ tre wedi'i haddasu, sydd wedi cael ei ddefnyddio fel practis deintyddol am nifer o flynyddoedd, hyd yn oed cyn cyfnod y perchnogion presennol, a brynodd y practis yn 1996, a nhw sydd wedi'i redeg ers hynny.

Nid oes lleoedd parcio ar safle'r practis ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, mae meysydd parcio cyhoeddus sydd heb fod yn bell, a rhywfaint o gyfleusterau parcio cyfyngedig ar y strydoedd cyfagos.

Mae dau ris wrth fynedfa'r practis, ac mae ramp cludadwy ar gael ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gallai'r ramp gael ei ddefnyddio hefyd gan bobl eraill sy'n cael anhawster defnyddio’r grisiau. Nid yw'r ramp yn ei le trwy'r amser, ac felly mae'n rhaid i staff adnabod eu cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn gosod y ramp ymlaen llaw; ond gwnaethant ddweud wrthym fod y system hon yn gweithio'n dda.

Yn y practis, mae’r mannau i gleifion ar y llawr daear, ac mae mynediad hygyrch trwy'r holl adeilad ar y lefel hon. Er mwyn cyrraedd y mannau staff, sy'n cynnwys cyfleusterau newid a loceri, tŷ bach ac ystafell ymolchi, ystafell hyfforddi ac ystafell ddadheintio, mae'n rhaid defnyddio grisiau, naill ai ar yr islawr neu ar lawr cyntaf yr adeilad. Roedd pob man wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus dros ben. Roedd yr ystafell aros yn enwedig yn lle dymunol, golau a chyfforddus, ar gyfer cleifion wrth iddynt aros.

Gwnaethom nodi bod rhai eitemau bach o ddodrefn a oedd angen eu newid, neu eu huwchraddio. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis a'r prif ddeintydd at y mater hwn. Ar wahân i'r mater hwn, nid oedd gennym ond sylwadau cadarnhaol i'w gwneud ynglŷn â chadw a chynnal amgylchedd y practis.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Clifton yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Clifton Dental

## Dyddiad yr Arolygiad: 3 Mehefin 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 10. | Rhaid aildrefnu’r offer a’r mannau gwaith yn yr ystafell ddadheintio, er mwyn sicrhau bod y llif gwaith rhwng offer glân ac offer budr yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | | | |
| 10. | Dylai fod sinc wedi'i rhannu, neu ddwy sinc, yn y man dadheintio, er mwyn golchi a rinsio offer deintyddol ar wahân. | | | |
| 10. | Rhaid lapio pob offeryn deintyddol ar ôl iddo | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | gael ei sterileiddio a rhoi'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar bob bag. | | | |
| 11. | Rhaid sicrhau bod biniau ar gyfer gwastraff clinigol yn cael ei weithredu â throed, er mwyn lleihau'r angen i gyffwrdd â biniau, a'r potensial o gludo haint o un eitem i'r llall, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd 01-05. | | | |
| 11. | Rhaid gosod arwyddion sy'n nodi mannau a reolir yn glir, yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (1999). | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..............................................................................................

**Teitl:** ..............................................................................................

**Dyddiad:** ..............................................................................................